# Maes Llafur Cytûn ar gyfer

# Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

# Cwricwlwm i Gymru

# Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

# Rhagair

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfle cadarnhaol i bawb sy'n ymwneud ag addysg adfyfyrio ar pam rydym yn addysgu, pa gysyniadau sy'n bwysig, sut y gall dysgwyr wneud cynnydd ystyrlon yn eu dysgu a datblygu dysgwyr yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n gwricwlwm cyfoethog ac amrywiol sy'n annog datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.  Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn un o bynciau gorfodol y cwricwlwm hwn.  Mae'n gyfnod cyffrous a allweddol i'r pwnc wrth iddo symud i fod o fewn y cwricwlwm, am y tro cyntaf, fel rhan o Faes Dysgu'r Dyniaethau. Yn rhan o faes y Dyniaethau, sy’n cwmpasu daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau cymdeithasol ac astudiaethau busnes, mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, ond mae ganddynt eu corff penodol eu hunain o wybodaeth a sgiliau. Mae 'CGM' yn ymgorffori ystod o ddisgyblaethau y gellir eu defnyddio gan ddysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol ag ystod eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol. Er enghraifft, gall disgyblaethau sy'n berthnasol i CGM gynnwys astudiaethau crefyddol, athroniaeth, diwinyddiaeth, cymdeithaseg, seicoleg, ac anthropoleg.

Mae’r pwnc traddodiadol 'Addysg Grefyddol' wedi'i ailenwi'n 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg', yn adlewyrchu ymagwedd ehangach y pwnc ac amrywiaeth poblogaeth Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae gan bob un ohonom ran hanfodol i'w chwarae i ysbrydoli ein dysgwyr i ehangu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiadau o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Dyma gyfle cyffrous a heriol i hyrwyddo astudiaethau gwrthrychol, beirniadol a lluosogol, gan annog ymholi ac ymchwilio i gredoau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol o fewn cymdeithas, ar lwyfan lleol, cenedlaethol a byd-eang. Bydd ein dysgwyr yn datblygu sgiliau dysgu a diddordeb gydol oes, gan eu paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i leoliad yr ysgol.

Mae ysgolion a lleoliadau ym Mro Morgannwg yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu CGM cyfoethog, deinamig ac arloesol o fewn cwricwlwm awtonomaidd a ddyluniwyd gan ysgolion, sy'n briodol i'w dysgwyr. Bydd pob ysgol a lleoliad, o fewn y rhanbarth, yn 'ystyried' eu maes CGM llafur cytûn yn lleol wrth ddylunio a gweithredu eu cwricwlwm, yn dilyn gofynion y ddeddfwriaeth.

Mae’r Cwricwlwm i Gymru'n rhoi cyfle gwerthfawr i gydnabod a chyfoethogi pwysigrwydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn ffocws ehangach ysgolion, gan gynnwys: datblygu ymdeimlad unigol dysgwyr o fywyd ysbrydol; strategaeth Prevent; addysg gynhwysol a chyfrannu at un o bedwar diben craidd y cwricwlwm i ddod yn 'ddinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd'. Mae pob ysgol a lleoliad o fewn y Fro yn datblygu darpariaeth ar gyfer CGM sy'n paratoi eu dysgwyr i fyw a gweithio mewn byd amrywiol sy'n newid yn gyflym, fel dinasyddion cyfrifol a gwybodus.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i estyn fy niolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o greu'r maes llafur cytûn hwn ac i'r rhai a fydd yn parhau i’w gefnogi.   Hoffwn ddiolch yn bersonol i'r ymarferwyr ym Mro Morgannwg y gwn eu bod wedi gweithio'n ddiflino wrth baratoi'r cwricwlwm newydd hwn ac a fydd yn parhau i ddarparu'r lefel uchaf o brofiad addysgu a dysgu i'n holl ddysgwyr.

**Paula Ham**

Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau

Cyngor Bro Morgannwg

# Tabl Cynnwys


| Cynnwys | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Cynulleidfa | 3 |
| Trosolwg | 3 |
| Gweithredu | 4 |
| Dogfennau perthnasol | 4 |
| **Maes Llafur Cytûn Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** | |
| Cyflwyniad | 5 |
| Gofynion cyfreithiol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg | 5 |
| Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg | 5-7 |
| Cynllunio eich cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg | 7 |
| Meysydd eraill o Ganllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg | 8 |
| Awgrym o'r pwyntiau i'w hystyried gan ysgolion a lleoliadau Bro Morgannwg | 8 |
| Yr 'Hawl i Dynnu'n Ôl' yn y Cwricwlwm i Gymru | 9 |
| Deunyddiau cymorth ychwanegol ar gyfer ysgolion a lleoliadau Bro Morgannwg | 9 |
| Manylion cyswllt | 9 |

Daw'r holl wybodaeth sydd wedi'i hamlygu'n 'llwyd' yn uniongyrchol o wefan Hwb ac rhoddir y dolenni.

# Maes Llafur Cytûn Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

## Cynulleidfa

Mae maes llafur cytûn Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i ysgrifennu i fod yn hygyrch i bawb sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r gynulleidfa a fwriedir yn cynnwys:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- darparwr addysg feithrin nas cynhelir ond a ariennir
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- y pwyllgor rheoli ar gyfer uned cyfeirio disgyblion
- person sy'n darparu addysg a dysgu i blentyn, ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wnaed o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56)
- gan awdurdod lleol yng Nghymru

Yn ogystal, gallai'r maes llafur cytûn hefyd fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, consortia rhanbarthol, cyrff dyfarnu, Estyn, undebau athrawon, sefydliadau crefyddol, sefydliadau nad ydynt yn grefyddol, rhieni a gofalwyr a chyrff eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

## Trosolwg

**Maes Llafur Cytûn**

"Gan mai pwnc y penderfynir arno'n lleol yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, y maes llafur cytunedig sy'n pennu'r hyn y dylid ei addysgu yn y pwnc ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n addysgu'r maes llafur cytunedig." Canllawiau CGM

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r manylion ynghylch addysgu a dysgu yn yr elfen Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) orfodol, yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, i holl ysgolion a lleoliadau Cyngor Bro Morgannwg a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mabwysiadwyd y ddogfen hon fel maes llafur cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Mro Morgannwg, yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi mabwysiadu'r ddogfen hon fel y maes llafur cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym mis Mai 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r awdurdod lleol gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ar 26 Ebrill 2022.

*"Ar ôl i faes llafur cytunedig gael ei fabwysiadu, bydd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir ystyried y maes llafur cytunedig, gan gynnwys ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, wrth gynllunio elfen maes llafur cytunedig eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg."* Canllawiau CGM

Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir yn rhanbarth Cyngor Bro Morgannwg '**roi sylw**' i'r maes llafur cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio eu cwricwlwm. Mae gan Gyngor Bro Morgannwg ddyletswydd gyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytûn bob pum mlynedd.

Mae maes llafur cytûn Cyngor Bro Morgannwg  yn cydnabod bod dull Fframwaith Cwricwlwm Cymru wedi'i seilio ar egwyddor **sybsidiaredd** ac, o'r herwydd, mae maes llafur cytûn Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod ac yn adlewyrchu ymreolaeth pob ysgol a lleoliad wrth wireddu ei gwricwlwm ei hun.

## Gweithredu

Bydd y maes llafur cytûn hwn gan Gyngor Bro Morgannwg  ar waith o **1 Medi 2022**, ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i bob dysgwr, hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 6. Ar gyfer dysgwyr blwyddyn 7, bydd gan ysgolion yn y rhanbarth hyblygrwydd o ran a ddylid cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, neu gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd ym mis Medi 2023. Yn ystod cyfnod rhoi'r cwricwlwm ar waith, wrth i ysgol uwchradd neu leoliad 'fabwysiadu' Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar gyfer grŵp blwyddyn penodol, bydd y maes llafur cytûn hwn gan Fro Morgannwg yn disodli maes llafur cytûn presennol/etifeddo Cyngor Bro Morgannwg. O fis Medi 2023, bydd y maes llafur cytûn newydd hwn, yn effeithiol ar gyfer pob dysgwr, hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 8, gan y bydd pob ysgol a lleoliad wedi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y dysgwyr hynny. Wedi hynny, bydd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn raddol yn parhau, a bydd y maes llafur cytûn hwn gan Gyngor Bro Morgannwg yn disodli'r llall:

- dysgwyr blwyddyn 9 ym mis Medi 2024
- dysgwyr blwyddyn 10 ym mis Medi 2025
- dysgwyr blwyddyn 11 ym mis Medi 2026

Darperir rhagor o wybodaeth i ysgolion a lleoliadau am y broses ar gyfer optio i mewn i'r Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â dysgwyr blwyddyn 7 yn yr adran 'Y daith i weithredu'r cwricwlwm'.

## Dylid anfon ymholiadau pellach am y ddogfen hon at:

Jeremy Morgan
Uned Cymorth Llywodraethwyr
E-bost: jmorgan@valeofglamorgan.gov.uk neu governors@valeofglamorgan.gov.uk
Ffôn: 01446 709108

## Gellir cael copïau ychwanegol gan:

Gyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) Bro Morgannwg ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy governors@valeofglamorgan.gov.uk

Neu drwy ymweld â gwefan Cyngor Bro Morgannwg: www.valeofglamorgan.gov.uk

## Dogfennau perthnasol

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

# Maes Llafur Cytûn Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn croesawu bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad **statudol** yn y Cwricwlwm i Gymru a'i fod yn **orfodol** i bob dysgwr o 3 i 16 oed:

Mandadol

*"Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau. Mae'r Maes hwn yn cynnwys daearyddiaeth; hanes; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd."* Canllawiau CGM

## Gofynion cyfreithiol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Mae'n hanfodol bod Penaethiaid, uwch-arweinwyr a llywodraethwyr yn deall gofynion cyfreithiol CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhain i'w gweld yn yr Adran CGM yn y Crynodeb o'r ddeddfwriaeth.

**Mae'r canllawiau statudol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru:**

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#religion,-values-and-ethics

## Y canllawiau CGM

Mae'r Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn **orfodol:**

Mandadol

*"Mae'r canllawiau ar Grefydd, gwerthoedd a moeseg ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 y Ddeddf, a bwriedir iddynt helpu'r rhai sy'n gyfrifol o fewn y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol."*

Crynodeb o'r Ddeddfwriaeth

Mae maes llafur cytûn Cyngor Bro Morgannwg yn dilyn y canllawiau statudol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar Hwb a dyma yw sail y maes llafur cytûn hwn gan Gyngor Bro Morgannwg ac mae i'w ddarllen ar y cyd â'r ddogfen hon.

| **Mae'r canllawiau statudol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru:**<br><br>https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#religion,-values-and-ethics-guidance |
|---|

Mae'r canllawiau CGM yn cynnwys gwybodaeth hanfodol i ysgolion wrth gynllunio eu cwricwlwm yn lleol, gan gynnwys y meysydd canlynol:

- Crefydd, Gwerthodd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru
- Datblygiad ysbrydol
- Themâu trawsbynciol
- Sgiliau trawsgwricwlaidd
- Sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben
- Egwyddorion Dilyniant o fewn y dyniaethau
- Disgrifiadau o'r dysgu o fewn y dyniaethau
- Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
    - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r pedwar diben
    - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
    - Cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
    - Lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (is-lensys mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg)
    - Cynnydd dysgwyr a theithiau dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
    - Cyfoethogi profiad dysgwyr mewn Crefydd, Gwerthodd a Moeseg
    - Cysylltiadau allweddol â Meysydd Eraill
    - Pwyntiau i'w hystyried gan ysgolion a lleoliadau
- Sicrhau cynwysoldeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Addysg mewn lleoliadau meithrin a ariennir ond nas cynhelir
- Addysg heblaw am yn yr ysgol

Dylai ysgolion a lleoliadau ym Mro Morgannwg nodi bod, yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, y maes llafur cytûn hwn gan Gyngor Bro Morgannwg yn adlewyrchu bod:

- traddodiadau crefyddol Cymru yn bennaf yn y ffydd Gristnogol tra'n ystyried arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru

- y ffaith bod ystod o gredoau athronyddol nad ydynt yn rhai crefyddol yn bodoli yng Nghymru

Rhaid i ysgolion a lleoliadau Bro Morgannwg hefyd nodi'r newidiadau deddfwriaethol canlynol a fydd yn cael effaith sylweddol ar ysgolion:

- Nid oes hawl gan rieni i dynnu eu plant o bwnc academaidd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru

- Rhaid i ysgolion a gynhelir gyda phlant oed meithrin a lleoliadau meithrin a ariennir ond nas cynhelir ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'w holl ddysgwyr o dair oed o fis Medi 2022

- Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ôl-16 mewn ysgolion a gynhelir yn ddewisol ar gyfer dysgwyr ôl-16 o fis Medi 2027

## Cynllunio eich Cwricwlwm CGM

Man cychwyn unrhyw gynllun cwricwlwm yw Hwb. Bydd unrhyw newidiadau hefyd yn cael eu gwneud yn ganolog ar Hwb, felly fe'ch cynghorir i ddarllen a gwirio gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru yn gyson.

Bydd angen i bob ysgol a lleoliad benderfynu sut mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gweithio orau o fewn eu dulliau gweithredu o fewn Maes y Dyniaethau. Er enghraifft, gall cynllun y cwricwlwm fod yn integredig, yn amlddisgyblaethol, yn rhyngddisgyblaethol neu'n ddisgyblaethol. Dylid gwerthuso cynllun y cwricwlwm yn rheolaidd yn unol â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Rhaid i bob ysgol a lleoliad hefyd roi sylw i'r maes llafur cytûn lleol hwn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio eu cwricwlwm.

Mae'r rhan ar Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Maes) hefyd yn hanfodol ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Yma fe welwch meysydd canlynol:

1. Cyflwyniad
2. Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (mandadol)
3. Egwyddorion cynnydd (mandadol)
4. Disgrifiadau dysgu
5. Cynllunio eich cwricwlwm

Mae gan yr adran 'cynllunio eich cwricwlwm' y wybodaeth ganlynol fydd hefyd yn ddefnyddiol i chi:

- Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol
- Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn
- Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd Eraill
- Themâu trawsgwricwlaidd

## Meysydd Eraill o'r Canllawiau CGM

Mae yna feysydd eraill o Grynodeb Deddfwriaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Cwricwlwm i Gymru a'r Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cynnig cyngor ac arweiniad i ysgolion a lleoliadau. Dyma rai o'r meysydd a'r dolenni hynny:

- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16
- Cyfoethogi Profiad Dysgwyr mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Datblygiad Ysbrydol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Sicrhau cynwysoldeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn Lleoliadau Meithrin a Ariennir ond nas cynhelir
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer Addysg heblaw am yn yr Ysgol

## Awgrym o'r pwyntiau i'w hystyried gan ysgolion a lleoliadau Bro Morgannwg

Fe'ch cynghorir y gall y cwestiynau canlynol, o'r Canllawiau Crefydd, Gwerthodd a Moeseg ar Hwb fod yn ddefnyddiol wrth ddylunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

- Ydych chi wedi ystyried sut y bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gweithio orau o fewn Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried eich maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy'r ffordd rydych yn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn helpu i wireddu'r pedwar diben?
- Ydych chi wedi defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Maes hwn er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi defnyddio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried amrywiaeth o is-lensys y gellir eu defnyddio i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried cynnydd dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ddefnyddio'r egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau dysgu Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried y 'teithiau dysgu' a ddarparwyd er mwyn eich helpu i ddeall cynnydd mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg?

- Ydych chi wedi myfyrio ar deithiau dysgu posibl eich dysgwyr eich hun er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd i gyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi gwneud cysylltiadau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r meysydd dysgu a phrofiad eraill?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy'r ffordd rydych yn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn sicrhau dyfnder, ehangder ac ansawdd dysgu priodol?

## Yr 'Hawl i Dynnu'n Ôl' yn y Cwricwlwm i Gymru

*"Nid oes gan rieni hawl i ofyn am gael tynnu eu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cwricwlwm i Gymru."* Canllawiau CGM

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion **statudol** y Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.  Mae'r amserlen ar gyfer y newidiadau hyn fel a ganlyn:

Dysgwyr oed cynradd – Medi 2022

Dysgwyr Blwyddyn 7 – Medi 2022 NEU Medi 2023, yn dibynnu ar pryd mae'r ysgol/lleoliad yn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru

Dysgwyr blwyddyn 8 - Medi 2023

Dysgwyr blwyddyn 9 - Medi 2024

Dysgwyr blwyddyn 10 - Medi 2025

Dysgwyr blwyddyn 11 - Medi 2026

Mae hyn yn unol â phob pwnc academaidd arall yn y Cwricwlwm i Gymru.

Sylwch y gall rhieni barhau i ofyn i'w plant gael eu tynnu'n ôl o 'gydaddoli' o fis Medi 2022, os dymunant, gan fod hyn yn wahanol ac ar wahân i bwnc academaidd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

## Deunyddiau cymorth ychwanegol ar gyfer ysgolion a lleoliadau Bro Morgannwg

Bydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cynghori Sefydlog Crefydd, Gwerthodd a Moeseg Bro Morgannwg yn parhau i ddarparu deunyddiau ategol, yn ogystal â'r maes llafur cytûn hwn. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a'u cynllunio i ddarparu cefnogaeth barhaus i ymarferwyr.  Y bwriad yw i'r rhain fod yn ddogfennau, deunyddiau ac adnoddau 'byw' i adlewyrchu esblygiad y Cwricwlwm i Gymru.

Mae Cyngor Bro Morgannwg a'r Cyngor Cynghori  yn croesawu cyfraniadau ac awgrymiadau ar gyfer deunyddiau ategol ychwanegol. Gellir sefydlu gweithgorau i gefnogi datblygiad y deunyddiau hyn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chlerc y Cyngor Cynghori:

Jeremy Morgan (Uned Cymorth Llywodraethwyr)
E-bost: jmorgan@valeofglamorgan.gov.uk neu governors@valeofglamorgan.gov.uk
Ffôn: 01446 709108

## **Manylion cyswllt**

I gael arweiniad pellach ar faes llafur cytûn Cyngor Bro Morgannwg a'r Cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, cysylltwch â:

Jeremy Morgan (Uned Cymorth Llywodraethwyr)
E-bost: jmorgan@valeofglamorgan.gov.uk neu governors@valeofglamorgan.gov.uk
Ffôn: 01446 709108